


# Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru



“Rhanbarth hyderus,  
cydlynol sydd â thwf  
economaidd  
cynaliadwy, sy'n elwa  
i'r eithaf o lwyddiant  
sectorau economaidd  
gwerth uchel a'i  
gysylltiad ag  
economïau Pwerdy'r  
Gogledd ac Iwerddon.”

# GWELEDIGAETH AR GYFER GOGLEDD CYMRU


Gweledigaeth sengl, gyd-gysylltiedig yw hon ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth i Ogledd Cymru. Fe'i cyflawnir drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, gyda'r sector preifat yn chwarae rhan bwysig ac ymagwedd "*Tîm Gogledd Cymru*", yn adeiladu perthnasau economaidd agos gydag ardaloedd cyfagos.

Bydd yn creu' amodau priodol i gefnogi darparu blaenoriaethau Isadeiledd Cenedlaethol Llywodraeth y DU yng ngogledd Cymru hefyd, yn benodol Wylfa Newydd - sy'n un o'r buddsoddiadau sector preifat mwyaf yn y DU - a'r prosiect moderneiddio'r rheilffyrdd o Crewe i Gaergybi, a fydd yn cynnwys trydaneiddio.

Cyflwynir ein huchelgais ar gyfer gogledd Cymru yn 2035 yn adran 2 y papur hwn, tra bod adrannau 3 a 4 yn nodi ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu Prosiectau i ddarparu twf a galluogi i'r sector preifat fuddsoddi a rhoi hwb i gynhyrchiant.

Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y papur hwn yw adnabod ein gweledigaeth ar gyfer twf i ogledd Cymru, a threfnu ein Strategaeth a'n pecyn o brosiectau i wireddu'r weledigaeth honno.

Ymchwilir i amrywiol raglenni ariannu er mwyn cefnogi gweithrediad y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Prosiectau, yn benodol cynnig Cynllun Twf gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.



Y Ganolfan Ymchwil i Ynni Solar,  
Prifysgol Glyndŵr

Mae nifer o resymau dros fynd ar ôl gweledigaeth o'r fath:

- Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gogledd Cymru;
- Cefnogi a chadw pobl ifanc yng nghymunedau'r rhanbarth;
- Mynd i'r afael â diweithdra a seگردod ledled y rhanbarth;
- Cefnogi a galluogi buddsoddiad sector preifat yn y rhanbarth i roi hwb i gynhyrchiant economaidd a gwella perfformiad economaidd a chyflogaeth gogledd Cymru.

# GOGLEDD CYMRU YN 2035.....

Gwireddir y weledigaeth drwy glystyrau economaidd gwerth uchel ledled gogledd Cymru.

Bydd gan y **clwstwr ynni** arbenigedd mewn cynhyrchu ynni, technolegau a phrosesau carbon isel, gyda busnesau wedi'u paratoi'n dda i elwa ar gyfleoedd o ganlyniad i fuddsoddiad yn Wylfa Newydd, Adweithyddion Modiwlwr Bychain Trawsfynydd a phrosiectau ynni llanw ac ynni gwynt oddi ar y tir. Bydd gan fusnesau o fewn y clwstwr gysylltiadau cryf gyda chanolfannau ymchwil ynni blaenllaw, yn enwedig yn ardal Pweryd'r Gogledd, er mwyn hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol, arloesedd, Ymchwil a Datblygu o ansawdd uchel, a masnacheiddio technoleg.


Yn bwysig, gwneir pob ymdrech i elwa ar synergedd gyda gweithgarwch datblygiadau clwstwr y sector ynni mewn rhanbarthau eraill cyfagos, yn enwedig cyfleoedd cadwyni cyflenwi. Bydd gogledd Cymru, ynghyd â'r ardal draws-ffiniol a gogledd-orllewin Lloegr, yn cael eu gosod fel un o leoliadau mwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer buddsoddi mewn cynhyrchu ynni a chadwyni cyflenwi yn ymwneud ag ynni, gydag arbenigedd mewn busnes ac academia i achub ar gyfleoedd am y galw byd-eang ar gyfer ynni carbon isel neu dim carbon.



Bydd y **clwstwr gweithgynhyrchu uwch** yn y rhanbarth yn hynod gystadleuol ar y llwyfan byd-eang. Bydd y rhanbarth yn ferw o weithgareddau yn y clwstwr hwn, gan adeiladu ar rwydwaith cryf o

gwmnïau angori gyda phroffil rhyngwladol a mantais gystadleuol o fewn awyrfod, deunyddiau a phrosesau, peirianeg forol ac amgylcheddol, cerbydau modur, electroneg a bwyd.

Cyflenwir y cwmnïau angori yn y clwstwr hwn gan y mentrau bach a chanolig o fewn y rhanbarth sydd ag enw da am ansawdd uchel. Bydd y clwstwr yn elwa o bortffolio o safleoedd datblygu â gwasanaethau da ynghyd ag argaeledd asedau a chyfleusterau gwybodaeth gymhwysol, yn enwedig o fewn addysg uwch. Gyrrir twf yn y clwstwr hwn yn benodol gan y Parthau Menter (megis Parth Menter Glannau Dyfrdwy), ynghyd â buddsoddiad newydd ym Mhorth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy; Parc Diwydiannol Wrecsam; Parc Busnes Llanellwy; Parc Bryn Cegin, Bangor a Pharc Cybi, Caergybi.



Bydd y **clwstwr digidol** yn rhan annatod o'r rhanbarth a bydd twf cyflym nifer o fusnesau digidol yn cadarnhau safle gogledd Cymru fel hwb o ragoriaeth technoleg yn y DU.

Bydd y sector digidol amrywiol, yn cynnwys cyfrifiannu perfformiad uchel, dadansoddi data, y cyfryngau, cyfrifiant gwybyddol ac ati, yn allweddol i'r rhanbarth, gan greu sectorau arloesol newydd a chreu ffyrdd newydd o ymgymryd â busnes. Y clwstwr digidol fydd peirianwaith twf yng

ngogledd Cymru, gan adeiladu ar y manteision cystadleuol yn nhermau academia, ansawdd bywyd a phrydferthwch naturiol eithriadol, ac isadeiledd o ansawdd.

Bydd y diwydiannau creadigol, datblygu meddalwedd, technoleg iechyd a gwyddor ariannol oll yn rhan o glwstwr o'r fath, gan fagu eu momentwm eu hunain ar gyfer twf. Bydd ein cryfder mewn technoleg ddigidol yn cael ei yrru gan ymchwil gymwys gref o Brifysgolion a Cholegau Addysg Bellach y rhanbarth gyda pheirianwyr trydanol a meddalwedd yn gyrru'r arbenigedd mewn caledwedd a chyfathrebu diwifr. Bydd rhai safleoedd strategol yn rhoi ffocws ar gyfer gweithgareddau yn y sector digidol, yn benodol Parc Gwyddoniaeth Menai, Parc Technoleg Wrecsam a Pharc Busnes Llanelwy.

Bydd gan y rhanbarth grynodiad uchel o gwmnïau digidol - clwstwr technoleg sylweddol, gan greu 'cyffro' gwirioneddol a fydd yn llwyddo i ysbrydoli pobl ifanc a chreu delwedd o ranbarth modern, eangfrydig ac sydd â chysylltiadau da.

Mae Gogledd Cymru yn economaidd gysylltiedig â **Phwerdy'r Gogledd**. Ni fydd ffiniau gweinyddol yn rhwystr, gydag economi gogledd Cymru wedi'i gysylltu'n annatod a'i alinio'n agos â gogledd-orllewin Cymru.

Bydd cydweithio ar draws ffiniau yn digwydd hefyd wrth gyflwyno prosiectau strategol, megis cludiant, a datblygu clystyrau gwerth uchel allweddol a fydd yn rhoi hwb i berfformiad a chynhyrchiant economaidd.

Mae rhai o'r prosiectau trawsffurfiol allweddol yn y rhanbarth, megis Wylfa Newydd ac Adweithyddion Modiwlwr Bychain Trawsfynydd, yn cynnig synergedd posib anferthol gyda'r clwstwr ynni ym Mhwerdy'r Gogledd, a bydd yn elwa'n uniongyrchol o'r arbenigedd gweithgynhyrchu uwch sy'n bodoli o fewn sefydliadau megis Canolfan Ymchwil

Gweithgynhyrchu Uwch Niwclear sydd yn Sheffield a Dalton Institute Prifysgol Manceinion.

Yn ogystal, bydd y rhanbarth yn elwa o ddatblygu cysylltiadau masnachu, masnachol a busnes gydag Iwerddon. Gwneir y mwyaf o'r buddion economaidd o fod wedi'n gosod rhwng prif ganolfannau economaidd megis Manceinion a Dilyn - gan gynyddu'n hapêl ymhellach fel prif gyrchfan busnes.

Bydd gwella'r isadeiledd cludiant ac economaidd rhanbarthol yn cefnogi twf tai cynaliadwy ac yn gwella mynediad i'r rhanbarth i hyrwyddo'r hyn sydd ganddo i'w gynnig i ymwelwyr. Bydd Gwireddu'r Weledigaeth wedi'i integreiddio mewn cynlluniau ar gyfer cynllunio a datblygu cymunedau cynaliadwy sy'n parchu nodweddion diwylliannol ac ieithyddol unigryw'r rhanbarth.



Bydd gwireddu'r uchelgais hon yn sicrhau y bydd gan ogledd Cymru gynnig rhanbarthol cryf i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnig hwn yn grynodiad o fusnesau arloesol mewn clystyrau economaidd gwerth uchel wedi'u sefydlu yn y rhanbarth, gan elwa i'r eithaf ar y sail sgiliau lefel uchel, isadeiledd o ansawdd a chysylltiadau ardderchog gyda Phwerdy'r Gogledd. Bydd crynodiad o'r fath yn sefydlu gogledd Cymru fel "Canolfan Ragoriaeth" er mwyn lleoli busnesau mewn clystyrau gwerth uchel ac o ganlyniad, gan roi hwb i lefelau cynhyrchedd y DU a chydbwysu'r economi.

# STRATEGAETH I GYFLAWNI'R WELEDIGAETH

Wrth galon y weledigaeth mae'r ysfia i wella **cynhyrchedd, yr awydd i gystadlu a thwf** ledled gogledd Cymru.

Mae wedi'i ddatblygu a'i gytuno arno gan bartneriaeth eang o bobl, sefydliadau a busnesau sy'n rhannu balchder mewn ardal sydd ag asedau, heriau a chyfleoedd unigryw, ynghyd ag uchelgais ar gyfer yr ardal honno.

Bydd y ffocws ar greu'r amodau priodol er mwyn i gystyrau economaidd gwerth uchel megis ynni, gweithgynhyrchu uwch a'r sector digidol ffynnu ac er mwyn rhoi hwb i'r cyfraniad i berfformiad yr economi.


Cyflawnir hyn drwy adeiladu ar gryfderau sylfaenol busnesau presennol a dod dros unrhyw rwystrau a heriau drwy ddarparu pecyn o brosiectau strategol sydd eu hangen er mwyn cael newid cadarnhaol i drawsffurfio'r economi.

Mae cynyddu cynhyrchedd yn nod allweddol. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn yn llwyddiannus, a darparu economi mwy llwyddiannus a chytbwys, bydd angen buddsoddiad hirdymor er mwyn mynd i'r afael â heriau hirdymor, yn benodol ym meysydd trafniadaeth, sgiliau a chyflogaeth, cefnogi busnes ac anghenion

tai.

Bydd y Strategaeth y cyflawni'r weledigaeth o gynyddu cynhyrchedd, twf a swyddi drwy ganolbwyntio ar yr isod:

**Gwella'r isadeiledd ledled y rhanbarth**, yn enwedig trafniadaeth a digidol, er mwyn hwyluso a galluogi buddsoddiad economaidd a gwireddu potensial economaidd gogledd Cymru. Rhaid diweddarau technoleg ddigidol yn sylweddol er mwyn bod yn alluogwr allweddol ar gyfer cynhyrchedd ac yn rhywbeth sy'n gyrru arloesedd a masnachu rhyngwladol. Hefyd, mae angen canolbwyntio ar wella mynediad i safleoedd cyflogaeth, a mynd i'r afael â phroblemau tagfeydd traffig ar rai llwybrau ffyrdd penodol, yn enwedig yn ardal y ffin. Rhaid buddsoddi yn rhwydwaith rheilffyrdd gogledd Cymru hefyd - mae trydaneiddio'r rheilffordd yn flaenoriaeth ynghyd â gwella amllder, cyflymder ac ansawdd y gwasanaethau rheilffordd. Hefyd, rhaid i'r rhanbarth sicrhau bod portffolio o safleoedd datblygu yn bodoli sy'n ymateb i'r farchnad, wedi'u gwasanaethu'n dda, sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n bodloni anghenion sectorau a chlystyrau economaidd heddiw ac yfory, yn enwedig ar hyd coridor yr A55. Mae hyn yn hanfodol os ydym am fod yn lleoliad y mae busnesau yn



ei ffafrio a denu buddsoddiad. Bydd gofyn i'r cynnig tai ledled gogledd Cymru - sy'n gydran allweddol o alluogi twf - ymateb i newidiadau demograffig a bodloni anghenion tai ledled y rhanbarth. Bydd angen annog cynlluniau i ddarparu tai o safon ar draws amrediad o ddaliadaethau, sy'n addas ar gyfer amrediad o lefelau incwm a dyheadau yn agos at ganolfannau cyflogaeth mawr.

**Gwella ac uwchraddio sgiliau'r rhanbarth a hyrwyddo twf cyflogaeth**, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella'r cyflenwad o sgiliau uwch yn y clystyrau economaidd gwerth uchel a mynd i'r afael â diweithdra. Rhaid cefnogi cyflogwyr yn y rhanbarth i yrru darpariaeth sgiliau sy'n ymateb i'w hanghenion, gan gadw hyblygrwydd i ymateb i ofynion sy'n newid. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion yn y rhanbarth yn meddu ar y sgiliau y mae cyflogwyr eu hangen a sicrhau bod yr ardal yn darparu cynnig cyflogaeth deniadol i ddenu a chadw gweithwyr, yn enwedig y rheini sydd â sgiliau lefel uchel. Mae'r Ganolfan Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy, y Ganolfan Technoleg Awyrfod ym Mrychdyn a'r Ganolfan Sgiliau newydd ar gyfer Ynni a'r Amgylchedd yn Llangefni yn enghreifftiau o brosiectau allweddol y mae angen eu darparu er mwyn cefnogi'r agenda sgiliau. Bydd rhaid i'r system addysg yn y rhanbarth fod yn fwy seiliedig ar y galw, gan adlewyrchu blaenoriaethau cyflogwyr a sectorau twf yn y cwricwlwm addysg. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y rheini sy'n chwilio am waith yn meddu ar y sgiliau er mwyn cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, ac mae angen cefnogi'r rheini sydd mewn gwaith i ddatblygu eu potensial. Ymdrinnir â diweithdra drwy ddarparu rhaglenni integredig a



Minesto ynni'r llanw

chydlynol a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn - gan roi'r hyder a'r gefnogaeth iddynt allu mynd i mewn i'r farchnad lafur.

**Hyrwyddo a chefnogi twf busnesau ac arloesedd**, yn enwedig mewn sectorau allweddol, a chryfhau cadwyni cyflenwi o fewn y rhanbarth. Mae angen i ni greu amgylchedd cefnogol a chystadleuol iawn i'n busnesau, fel eu bod yn parhau'n wydn ac wedi'u sefydlu'n lleol. Mae'n hanfodol bod y gefnogaeth hon yn cael ei chydlynu'n effeithiol, yn enwedig drwy ymagwedd Tîm Gogledd Cymru. Yn ogystal, bydd cyfle i fusnesau yn y rhanbarth i elwa i'r eithaf ar gynlluniau buddsoddiad sector preifat sylweddol, megis Wylfa Newydd, Parth Menter Glannau Dyfrdwy, Orthios Caergybi, ac mae'n hanfodol y rhoddir y gefnogaeth a'r adnoddau cywir iddynt allu cael mynediad i'r cadwyni cyflenwi perthnasol a chadw gwariant yn y rhanbarth. Rhaid i ni hefyd roi hwb i dwf mewn mentrau ar draws allforio, arloesedd a busnesau newydd, yn enwedig drwy ymyraethau sydd â chyswllt ac ymrwymiad llawn y sector preifat. Rhaid i ni hefyd sicrhau bod y gwasanaethau a'r cyfleusterau priodol ar gael yn y rhanbarth i gefnogi'r sector busnes i gael mynediad i adnoddau Ymchwil a Datblygu, yn benodol o addysg uwch ac addysg bellach. Mae angen mentrau marchnata rhagweithiol hefyd er mwyn denu buddsoddiad newydd, gan adeiladu ar gryfderau lleoliadau amrywiol ledled y rhanbarth, a sefydlu Gogledd Cymru fel cyrchfan allweddol. Yn syml, rhaid i ni gael enw gwell fel lleoliad ardderchog o safon uchel ar gyfer buddsoddiad newydd, yn benodol yn y clystyrau economaidd gwerth uchel.

Rhennir y buddion er mwyn cefnogi twf cynaliadwy'r gwahanol isranbarthau yng ngogledd Cymru.

Rhoddir ystyriaeth yn awr i ffurf o fodel llywodraethu a fydd yn gynhwysol a gyda'r modd o weithredu'n brydlon a chadarn, ynghyd ac ymgymryd â gwaith cyd-gynllunio gyda Phartneriaethau Rhanbarthol fel Sir Gaer a Warrington.

# PROSIECTAU STRATEGOL I GYFLAWNI'R STRATEGAETH

Mae portffolio o brosiectau strategol wedi'u hadnabod er mwyn cefnogi'r gwaith i wireddu'r strategaeth. Mae'r prosiectau hyn - sydd oll wedi'u hadnabod fel blaenoriaethau gan bartneriaeth yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru, y sector preifat a Cholegau Addysg Uwch ac Addysg Bellach - wedi'u cynnwys isod dan y penawdau perthnasol.

Dylid nodi bod blaenoriaethau allweddol y chwe Awdurdod Lleol ar gyfer Isadeiledd, Sgiliau a Thwf Busnes wedi'u hymgorffori o fewn y portffolio hwn.



## Cynllun Isadeiledd i alluogi twf:

### Ffyrdd

- Prosiect Gwella Llwybr yr A55 / A494 (£210m), gwella'r prif fynediad o ogledd Cymru i Bwerdy'r Gogledd\*:
  - Gwelliant Aston Hill
  - Ffordd amgen Pont Sir y Fflint
- Gwelliannau Capasiti a Gwytnwch yr A55 (£35m):
  - Materion tagfeydd traffig mewn manau cyfyng allweddol e.e. Helygain ac Abergele
  - Gwelliannau gwytnwch
- Prosiect Gwella Llwybr yr A483 / A5 (£300m), gwella'r prif fynediad o ogledd Cymru i Ganolbarth a De Lloegr\*:
  - Cyffordd yr A483 / A55 ym Mharc Busnes Caer
  - Cyffyrdd Canol Tref Wrecsam
  - Cyffyrdd yr A483 / A5 yn Halton drwy Groesoswallt
- Yr A55 ar draws y Fenai (£135m)
- Yr A487 Ffordd Osgoi Caernarfon Bontnewydd (£85m)
- Mynediad Porthladd Caergybi (£10-15m)



|                              |  |
|------------------------------|--|
|                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynediad lleol i gyfleoedd cyflogaeth</li> </ul>  |
| Rheilffordd                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu prosiectws manwl (Growth Track 36) sy'n amlinellu ein huchelgais ar gyfer gwelliannau gwasanaethau rheilffordd a chysylltedd gyda'r HS2 yn hwb Crewe - gan gynnwys cynigion i wella: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwelliannau amllder a chyflymder y gwasanaeth (£20m - £25m)*</li> <li>• Gwelliannau capasiti y rhwydwaith (£35m)*</li> <li>• Gwelliannau i'r cerbydau</li> <li>• Trydaneiddio'r rhwydwaith (£750m)*</li> <li>• Gwell gorsafoedd yng Nglannau Dyfrdwy</li> </ul> </li> </ul>   |
| Trafnidiaeth Integredig      | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu rhwydwaith trafndiaeth teithwyr rhanbarthol sy'n integreiddio'n llawn yr holl foddau trafndiaeth.</li> </ul>  |
| Safleoedd ac Eiddo Strategol | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwireddu rhaglen wedi'i rheoli sy'n darparu safleoedd cyflogaeth strategol gydag isadeiledd cysylltiedig yn cynnwys mynediad: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Porth y Gogledd, Glannau Dyfrdwy (£10m)*</li> <li>• Warren Hall, Brychdyn (£20m)*</li> <li>• Ehangu Parc Technoleg Wrecsam (£10m)*</li> <li>• Ymestyn Stad Ddiwydiannol Wrecsam (£15m)*</li> <li>• Ailddatblygu Ardal Fusnes Wrecsam (£8m)*</li> <li>• Ehangu Parc Busnes Llanellwy (£10m)</li> <li>• De ddwyrain Abergele (£7m)</li> <li>• Parc Bryn Cegin, Bangor (£3m)</li> <li>• Ehangu Parc Cefni, Llangefni (£5m)</li> <li>• Parc Cybi, Caergybi (£2m)</li> <li>• Ailddatblygu Porthladd Caergybi (£5m)</li> <li>• Safle Ferodo, Caernarfon (£5m)</li> <li>• Canolfan Cynhyrchu Ynni Trawsfynydd (£5m)</li> <li>• Canolfan Awyrofod Eryri, Llanbedr (£6m)</li> <li>• Parc Gwyddoniaeth Menai (£21m)</li> </ul> </li> </ul> |

|         |  |
|---------|--|
|         | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu Bwrdd Cyflwyno rhanbarthol er mwyn datblygu safleoedd ac eiddo ac adnabod cyfleoedd ariannu arloesol.</li> </ul>  |
| Digidol | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo a chyflwyno prosiectau sy'n cynyddu band eang cyflym a rhwydwaith ffonau symudol sy'n galluogi ein busnesau i gael mynediad i farchnadoedd newydd.</li> <li>• Cyflymu datblygiad rhaglen isadeiledd cysylltedd y rhanbarth.</li> <li>• Cefnogi buddsoddiad parhaus yn y rhwydwaith a'r isadeiledd digidol, yn enwedig cysylltedd symudol, a hyrwyddo gweithgareddau i wneud y mwyaf o'r ffaith fod band eang cyflym ar gael. Monitro defnydd a hyrwyddo'r capasiti a ddarperir.</li> </ul> |
| Tai     | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynd i'r afael â rhwystrau allweddol i ddarparu tai, yn enwedig yn Wrecsam a Sir y Fflint, a sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer datblygiad preswyl i fodloni'r galw a'r angen a amcangyfrifir, yn enwedig ailddefnyddio safleoedd tir llwyd.</li> <li>• Bydd cefnogaeth ar gael i gynorthwyo gyda chostau sy'n gysylltiedig ag adfer safle, darparu isadeiledd galluogi a'r diffyg arian a achoswyd gan fynediad cyfyngedig i arian gan fanciau a sefydliadau.</li> </ul>                     |

(\* hefyd wedi eu cynnwys yng nghais twf Sir Gaer a Warrington)



## Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth i alluogi twf:

|  |  |
|--|--|
|  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyno strategaeth sy'n cynyddu'r defnydd o bynciau STEM i gefnogi'r sectorau ynni, gweithgynhyrchu uwch a digidol yng ngogledd Cymru.</li> <li>• Adnabod galw am sgiliau a gweithio gyda darparwyr o fewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach a'r trydydd sector i gefnogi datblygu ac uwch-sgilio'r gweithlu rhanbarthol.</li> <li>• Datblygu mentrau a phrosiectau i hyrwyddo darpariaeth sgiliau ar draws darparwyr addysg a hyfforddiant er mwyn cefnogi blaenoriaethau economaidd rhanbarthol.</li> </ul> |
|--|--|

- Cyflwyno prosiectau a rhaglenni penodol er mwyn cefnogi'r sectorau allweddol:
  - Canolfan Ragoriaeth ABWR Grŵp Llandrillo Menai / Horizon a Champws Niwclear yn Llangefni
  - Canolfan Ragoriaeth mewn Ynni Adnewyddadwy ym Mhrifysgol Bangor ac ym Mharc Gwyddoniaeth Menai
  - Canolfan Gweithgynhyrchu Uwch yng Nglannau Dyfrdwy a Labordy Peirianeg a Chynhyrchedd Busnes ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam
  - Canolfan technoleg awyrofod ym Mrychdyn
  - Adnodd gwyddonol a thechnoleg newydd ym Mhrifysgol Bangor
- Ariannu gwasanaeth cyngor gyrfaal ar draws ffiniau i gefnogi'r ddarpariaeth sgiliau.



## Cefnogi Cynllun Twf Busnes:

- Datblygu prosiectau sy'n benodol i'r sector sy'n cefnogi twf parhaus y sector Gweithgynhyrchu Uwch, yn enwedig yn y sectorau Awyrofod, Cerbydau Modur, Pecynnu, Niwclear, Deunyddiau Uwch, Bwyd a Diod a Gwyddorau Meddygol.
- Cyflwyno'r prosiectau cynhyrchu ynni ac ynni adnewyddadwy carbon is a gynlluniwyd, ynghyd â hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd i ddatblygu prosiectau yn y rhanbarth ymhellach e.e. Parth Arddangos Morol Morlais, Canolfan Ynni Adnewyddadwy Catapult.
- Hyrwyddo datblygiad parhaus y sectorau Cyllid, Busnes, gwasanaeth Creadigol a Digidol dwys a gwerth / gwybodaeth uchel sy'n tyfu yng ngogledd Cymru e.e. Gwasanaethau Ariannol Wrecsam.
- Rhoi hwb i dwf yn ein ffrwd Menter ar draws ffiniau ym maes Allforio / Arloesedd / Cynhyrchedd a Sefydlu Busnesau, drwy becyn o arian ac adnoddau ar gyfer Ymchwil a Datblygu Busnes ac Ymchwil Addysg Uwch ac Addysg Bellach / Recriwtio Graddedigion / Rheoli Allforion / Fflyd Deori 'Pop-up' rhanbarthol.
- Trosoli a phwlio adnoddau presennol sy'n cefnogi datblygiad economaidd drwy sefydlu Hwb Buddsoddi a Chyflymu Twf Gogledd Cymru (Hwb Twf Gogledd Cymru), gan gyd-leoli adnoddau allweddol Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru mewn un lleoliad. Yr holl drosolion a chefnogaeth allweddol

mewn un lle - 'tîm Gogledd Cymru'.

- Cefnogi busnesau yn y rhanbarth i gael mynediad i gyfleoedd sy'n deillio o gynlluniau buddsoddi sector preifat a chyhoeddus mawr, yn enwedig drwy'r gadwyn gyflenwi. Mae rhai o'r prosiectau mawr hyn yn cynnwys Wylfa Newydd, Parc Gwyddoniaeth Menai, Parthau Menter, Orthios Caergybi a gwelliannau mawr i'r rhwydwaith ffyrdd.
- Datblygu mentrau newydd i gefnogi cynaladwyedd a gwytnwch y sector adeiladu yng ngogledd Cymru.
- Darparu cefnogaeth ac ysgogiad i gwmnïau angori mawr sydd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru i dyfu a datblygu ymhellach, megis Airbus / JCB / Siemens / Redrow / Moneypenny / Moneysupermarket / Toyota / Kingspan.
- Sefydlu Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth - cysylltu anghenion byw busnesau gyda chyfleusterau ymchwil ac arbenigedd ledled gogledd Cymru, Merswy Dyfrdwy a rhanbarth ehangach Pwerdy'r Gogledd.
- Datblygu prosiectau i gyflymu masnacheiddio technolegau newydd a chynnyrch sy'n arwain y farchnad, gan roi hwb i dwf arloesedd a chynhyrchedd.
- Buddsoddiad yn y 'Coridor Arloesedd' ledled gogledd Cymru i ehangu a gwella cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu, gan helpu i sefydlu Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo-Menai yn benodol fel canolfannau ar gyfer arloesedd, ymchwil a datblygu.
- Elwa i'r eithaf ar enw da'r rhanbarth fel lle ag ansawdd bywyd gwyd, fel cyrchfan twristiaeth antur sy'n adnabyddus ledled y byd ac fel y lleoliad canolog sy'n cysylltu'r Farchnad Wyddelig a'n rhanbarth ehangach o Bwerdy'r Gogledd, drwy sefydlu Cronfa Farchnata Ranbarthol i gefnogi Mewnfuddsoddi a hyrwyddo Twristiaeth (rheolaeth Sector Cyhoeddus/Preifat).

# EFFAITH AR BERFFORMIAD ECONOMAIDD Y RHANBARTH

Y gyfradd twf sydd wedi'i ragweld ar gyfer yr economi ranbarthol - yn seiliedig ar dueddiadau presennol - yw 1.9% rhwng 2016 a 2035. Er hynny, fe allwn gyflawni cyfradd twf uwch o weithredu'r Weledigaeth Twf a'r Strategaeth Dwf, a chodi gwerth economi Gogledd Cymru o £12.8 biliwn i £20 biliwn erbyn 2035 - yn cynrychioli cyfradd twf o 2.8%

Byddai gwerth yr economi yn tyfu 56% mewn llai nag 20 mlynedd. Amcangyfrifir y bydd lefelau twf o'r fath yn cynhyrchu o leiaf 120,000 o gyfleoedd cyflogaeth newydd ychwanegol. Mae hyn yn seiliedig ar ystyriaethau sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd a oedd yn modelu gwahanol senarios o symudiadau mewn GVA yn y dyfodol yng ngogledd Cymru.

Bydd gwelliannau o'r fath mewn twf GVA a chyflogaeth yn lleihau'r bwch allbwn gyda gweddill y DU yn sylweddol

Mae'r ddarpariaeth a ragwelir ar gyfer dyraniadau tai ar hyn o bryd mewn Cynlluniau Datblygu Lleol sydd wedi'u mabwysiadu neu sydd ar y gweill ledled y rhanbarth (sy'n gorffen ar wahanol adegau) yn amrywio o 37,500 o gartrefi i 44,100, sy'n 2,500-3,000 o gartrefi newydd y flwyddyn. Fodd bynnag, mae 13,100 o gartrefi wedi'u cwblhau rhwng mis Ebrill 2007 a mis Ebrill 2015 - y mwyafrif yn ardal Sir y Fflint a Wrecsam. Mae hyn yn dangos fod yn rhaid i'r rhanbarth fod yn fwy uchelgeisiol yng nghynllunio twf tai cynaliadwy.

O ystyried y twf a ragwelir yn y rhanbarth, rhaid i fesurau fod yn eu lle i sicrhau bod cyfyngiadau a rhwystrau'n cael eu gwaredu er mwyn rhyddhau safleoedd dynodedig ar gyfer datblygiadau tai - yn enwedig mewn ardaloedd o dwf cyflogaeth uchel. (Mae'r weithred hon wedi'i chynnwys yn y Cynllun Isadeiledd yn y Strategaeth). Yn ogystal, bydd angen dyraniadau pellach o dir ar gyfer tai wrth i'r Cynlluniau Datblygu Lleol gael eu hadnewyddu o 2021 ymlaen. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni sicrhau bod y broses cynllunio defnydd tir yn cael ei hintegreiddio a'i halinio'n agos gyda'n strategaeth twf economaidd.

# £7.2bn

## gwerth ychwanegol i'r economi ranbarthol erbyn 2035

# CYFRIFOLDEBAU NEWYDD I'R RHANBARTH ER MWYN CYFLAWNI

Mae'r rhanbarth wedi'i baratoi ac yn barod i dderbyn cyfrifoldebau a phwerau newydd ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio arno. Bydd hyn yn cefnogi cyflawniad y Weledigaeth a'r Strategaeth Twf, ynghyd â hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio a gwella cydlynu gwasanaethau i fusnesau a phobl drwy ymagwedd "Tîm Gogledd Cymru".

Er enghraifft, mae potensial i edrych i mewn i'r isod gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru:

- Integreiddio rhaglenni cyflogaeth a sgiliau ar y lefel ranbarthol - yn benodol rhaglenni DWP a mentrau sgiliau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u targedu at y grwpiau "anodd eu cyrraedd" a'r rheini sy'n economaidd anweithredol. Drwy ymagwedd o'r fath, daw cyfle i fynd i'r afael â diweithdra mewn ffordd lawer mwy ystyrlon ac effeithiol, gan deilwra'r Rhaglen Gwaith ac lechyd newydd i fodloni anghenion gogledd Cymru.
- Cronfa Fuddsoddi wedi'i Gwarantu gan Asedau - Gellid cyflawni hyn pe byddai asedau Awdurdodau Lleol / Llywodraeth Cymru / cyrff cyhoeddus yn cael eu pwlio. Yr hyn sy'n bwysig, er mwyn i'r ymagwedd hon fod yn gwbl effeithiol, yw y byddai rhai o'r pwerau sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ers dyddiau'r WDA / Awdurdod Tir yn rhoi cyfrifoldebau a phwerau allweddol i'r endid newydd.
- Cynllunio defnydd tir strategol - yn benodol er mwyn cyflawni gwell aliniad rhwng polisïau cynllunio a blaenoriaethau datblygu'r economi. Gellid ymgymryd â'r broses o adnabod

cyflenwad tir sydd ei angen ar gyfer twf tai a thwf economaidd yn fwy rhanbarthol a strategol, ynghyd ag adnabod safleoedd strategol. Mae cyfle yma i gyflawni gwell integreiddiad strategol rhwng cynllunio trafndiaeth, cynllunio economaidd a chynllunio defnydd tir drwy ymagwedd newydd a beiddgar.

- Awdurdod trafndiaeth rhanbarthol gyda'r cyfle i flaenoriaethu cynlluniau ar gyfer ariannu ledled y rhanbarth - gyda'r nod o "alluogi" twf economaidd.
- Tîm cefnogi busnes a masnach - yn gweithio ledled y rhanbarth gydag ymagwedd "tîm gogledd Cymru". Byddai'r tîm hwn yn canolbwyntio'n benodol ar ein sectorau twf a gorchfygu rhwystrau i dwf ac arloesedd. Gallai gynnwys twristiaeth a marchnata hefyd.
- Pwerau cyllidol newydd ar y lefel ranbarthol, yn benodol rhaglen o brosiectau Cyllid Cynyddu Treth a ariannir drwy enillion refeniw treth Ardreth Annomestig Genedlaethol (NNDR) ychwanegol o weithgareddau datblygu'r economi, ynghyd â Chronfa Buddsoddi Ranbarthol i ddarparu arian a chyllid ar gyfer gweithgareddau adfywio ledled y rhanbarth.



Partneriaid allweddol yn uno i gefnogi'r prospectws rheilffyrdd Growth Track 360

Mae gogledd Cymru mewn lle da i dderbyn ystod o gyfrifoldebau newydd, ac mae'n hyderus y bydd y pwerau a ddatganolir i'r rhanbarth - yn dilyn trafodaethau a chytundeb gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru - yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawni'r Weledigaeth a'r Strategaeth Twf, gan roi hwb i lefelau cynhyrchedd a gwella rhagolygon cyflogaeth ein trigolion.

# Cefnogir y Weledigaeth ar gyfer Twf gan:



Cyng. Dilwyn Roberts, Arweinydd



Cyng. Hugh Evans OBE, Arweinydd



Cyng. Aaron Shotton, Arweinydd




Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd




hefyd

Cadeirydd, Bwrdd Uchelgais  
Economaidd Gogledd Cymru



Cyng. Mark Pritchard, Arweinydd




Cyng. Ieuan Williams, Arweinydd



Ashley Rogers, Cadeirydd



David Jones OBE, Prif Weithredwr



Yr Athro Maria Hinfelaar,  
Is-ganghellor



Yr Athro John Hughes,  
Is-ganghellor



Glyn Jones OBE, Prif Weithredwr





[www.northwaleseab.co.uk](http://www.northwaleseab.co.uk)

Cyswllt: Iwan Trefor Jones ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru  
t. 01286 679162 e. [IwanJ@gwynedd.llyw.cymru](mailto:IwanJ@gwynedd.llyw.cymru)